OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 361

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i adeilad ynni a eithrir ac mae i "adeilad ynni a eithrir" yr un ystyr ag a roddir i "excepted energy building" yn yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**1**).

(4) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2016.

(**1**) O.S. 2009/3019.